CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**

# GBIS ac ECO4: Ffurflen Gais Deiliad Tŷ

**Enw a manylion cyswllt y gosodwr**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Syrfëwr:** | | **Dyddiad yr ymweliad:** | |
| **Enw a Chyfeiriad y Cwmni:** | | | |
| **Cod Post:** | | **Rhif Cyswllt:** | |

**This document is also available in English.**

Mae'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO) yn canolbwyntio ar gefnogi deiliaid tai ar incwm isel, diamddiffyn a thlawd o ran tanwydd er mwyn gosod dulliau insiwleiddio a gwresogi. Nod y prosiect yw lleihau tlodi tanwydd a biliau ynni'n hir dymor a lleihau allyriadau carbon. Mae Cynllun Insiwleiddio Prydain (GBIS) yn gynllun effeithlonrwydd ynni ar gyfer deiliaid tai, a fydd yn cefnogi'r cynllun ECO4 presennol i ddiwallu'r targedau mesurau sengl gan fwyaf i ystod ehangach o aelwydydd.

Mae'r ffurflen hon yn galluogi aelwydydd ledled Prydain i wneud cais i'w hawdurdod lleol ar gyfer cynllun GBIS neu ECO4, fel yr amlinellwyd gan yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (Adran Strategaeth Fusnes, Ynni a Diwydiannol yn flaenorol).

Mae modd i aelwydydd nodi ar y ffurflen hon pa un o'r 4 llwybr posibl y maent yn gymwys ar ei gyfer a rhannu eu manylion personol gyda'u hawdurdod lleol neu asesydd cymhwysedd.

Nid yw'r ffurflen gais yn gwarantu cymhwysedd o dan Gynlluniau GBIS neu ECO4 ac mae'r holl geisiadau yn destun asesiad gan yr awdurdod lleol. Yn yr un modd, nid yw cymhwysedd wedi'i warantu os yw'r ALl yn cyflwyno datganiad, a bydd y gosodiad yn destun gwiriadau pellach gan gwmni ynni / Ofgem.

**RHAN 1 – Manylion yr Ymgeisydd**

| **Manylion yr Ymgeisydd**<br>Sicrhewch fod unrhyw fanylion a gyflwynir yn cyd-fynd ag unrhyw ddogfennau ategol a gwybodaeth ofynnol y datganiad. | |
|---|---|
| **Enw** | |
| **Teitl** (Mr/Mrs/Ms/Miss/Arall) | |
| **Cyfeiriad** (yn cynnwys cod post) | |
| **Rhif Ffôn**<br><br>(cartref a symudol) | |
| **Cyfeiriad e-bost** | |
| **Dyddiad Geni** | |

| **Manylion yr Eiddo**<br>Darparwch y manylion canlynol am yr eiddo y mae'r cais yn ymwneud ag o. | |
|---|---|
| **Cyfeiriad yr Eiddo**<br><br>(os yw'n wahanol i'r uchod) | |
| **Oed yr Eiddo** | |
| **Nifer yr Ystafelloedd Gwely** | |

| **Manylion yr Eiddo**<br>Darparwch y manylion canlynol am yr eiddo y mae'r cais yn ymwneud ag o. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tŷ | Canol Teras | Diwedd Teras | Pâr | Tŷ sengl |
| Byngalo | Canol Teras | Diwedd Teras | Pâr | Byngalo sengl |
| Fflat deulawr | 1 neu 2 wal allanol | | 3 wal allanol | |
| Fflat | 1 neu 2 wal allanol | | 3 wal allanol | |
| Cartref Symudol | | | | |

| | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|
| Ai'r eiddo hwn yw unig neu brif breswylfa'r ymgeisydd? | | |
| A oes gan yr ymgeisydd fuddiant fel perchennog yn yr eiddo? | | |
| A yw'r ymgeisydd yn denant? | | |

**Os mai tenant ydych chi, nodwch fanylion eich landlord, ynghyd â thystiolaeth o'u caniatâd.**

| | |
|---|---|
| **Enw'r Landlord** | |
| **Teitl** (Mr/Mrs/Ms/Miss/Arall) | |
| **Cyfeiriad** (yn cynnwys cod post) | |
| **Rhif Ffôn**<br>(cartref a symudol) | |
| **Cyfeiriad e-bost** | |

| | |
|---|---|
| **Deiliaid yr Eiddo**<br>Nodwch fanylion ar gyfer y deiliaid os ydynt dros 18 oed. | |
| **Enwau ac oedran** | |
| **NEU,** Rwy'n cadarnhau fod gennyf ddeiliadaeth unigol o'r eiddo. | |

| | |
|---|---|
| **Trosglwyddo Datganiad**<br>Os ydy datganiad wedi'i gyflwyno gyda gosodwr arall a heb gael gosod unrhyw beth eto, mae'n bosibl y byddwn yn gallu trosglwyddo eich datganiad i'r gosodwr newydd o'ch dewis. | |
| **Gosodwr Blaenorol** | |
| **Amcangyfrif o'r Dyddiad Cymhwyster** | |
| **Llwybr Cymhwyster** | |

**RHAN 2 - Meini Prawf Cymhwysedd**

Ar ôl darllen a deall Datganiad o Fwriad GBIS ac ECO4 hyd eithaf fy ngallu, rwy'n deall efallai fy mod yn gymwys ar gyfer y cynllun o dan:

| Llwybrau Cymhwysedd GBIS ac ECO4 | | |
|---|---|---|
| **Llwybr 1** | Aelwydydd perchen-feddianwyr ac aelwydydd sy'n cael eu rhentu'n breifat gydag incwm gros blynyddol sy'n llai na £31,000. Mae'r terfyn yn berthnasol beth bynnag fo maint, cyfansoddiad neu ranbarth yr eiddo. | |
| **Llwybr 2** | Aelwydydd perchen-feddianwyr ac aelwydydd sy'n cael eu rhentu'n breifat sy'n bodloni cyfuniad o ddau o'r procsis canlynol: | |
| | **Procsi 1)** Cartrefi yn Lloegr mewn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is 1-3 (LSOA), neu gartrefi yng Nghymru o dan ddarpariaeth LSOA 1-3 ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, neu gartrefi yn yr Alban o fewn "parth data" 1-3 ym Mynegai Amddifadedd Lluosog yr Alban 2020* | |
| | **Procsi 2)** Mae unigolyn sy'n byw yn yr eiddo yn gymwys ar gyfer gostyngiad yn Nhreth y Cyngor ar sail incwm isel. | |
| | **Procsi 3)** Mae unigolyn sy'n byw yn yr eiddo yn cael eu hystyried yn agored i niwed gan yr oerni o dan Ganllawiau y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Iechyd a Gofal (NICE) NG6: Argymhelliad 2, am reswm heblaw eu hincwm isel* | |
| | **Procsi 4)** Mae plentyn sy'n byw yn yr eiddo yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, yn sgil incwm isel. | |
| | **Procsi 5)** Mae unigolyn sy'n byw yn yr eiddo yn cael eu cefnogi o dan gynllun a sefydlwyd gan yr ALl / DA sydd wedi'i enwi a'i ddisgrifio o fewn eu Datganiad o Fwriad ac a sefydlwyd i gefnogi pobl sy'n byw ar incwm isel ac yn cael eu hystyried yn agored i niwed gan oerni o dan Ganllaw NG6 NICE. | Amherthnasol |
| | **Procsi 6)** Aelwyd a gyfeiriwyd at yr ALl am gefnogaeth gan eu cyflenwr ynni neu Gyngor ar Bopeth neu Gyngor ar Bopeth yr Alban, gan eu bod wedi eu nodi fel aelwyd sy'n ei chael yn anodd talu eu biliau trydan a/neu nwy. | |
| | **Procsi 7)** Aelwydydd a nodwyd drwy ddata dyledwyr cyflenwyr ynni. Mae'r llwybr hwn yn galluogi cyflenwyr sydd â rhwymedigaeth i ddefnyddio eu data dyledion eu hunain i nodi naill ai aelwydydd heb fesurydd rhagdalu (dim-PPM) neu aelwydydd â mesurydd rhagdalu (PPM)*. | Amherthnasol |
| **Llwybr 3** | Aelwydydd perchen-feddianwyr ac aelwydydd sy'n cael eu rhentu'n breifat sydd wedi'u nodi naill ai gan unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar Gofrestr Ymarferwyr Cyffredinol, Bwrdd Iechyd yr Alban, Bwrdd Iechyd Cymru, Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG, neu Ymddiriedolaeth GIG yn aelwyd ddiamddiffyn, sydd â phreswylydd y gallai ei gyflwr iechyd gael ei effeithio ymhellach drwy fyw mewn cartref oer. Mae'n rhaid i'r cyflyrau iechyd hyn fod yn gardiofasgwlaidd, anadlol, gwrthimiwnedd, neu'n ymwneud ag anawsterau symud. | |
| **Llwybr 4** (ECO4 yn unig) | Aelwydydd perchen-feddianwyr ac aelwydydd sy'n cael eu rhentu'n breifat a gaiff eu hatgyfeirio o dan Lwybr 4: Targedu Pwrpasol. Gall cyflenwyr ac Awdurdodau Lleol gyflwyno cais i'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net lle maent wedi nodi dulliau newydd o ganfod aelwydydd incwm isel a diamddiffyn. Mae angen i geisiadau ddangos nifer o ffactorau, gan gynnwys bod y fethodoleg a gynigir yn fwy effeithiol i nodi aelwydydd â thlodi tanwydd na'r meini prawf a nodir o dan Lwybrau 1 a 2. | |

*Ni ellir defnyddio Procsis 1 a 3 mewn cyfuniad â'i gilydd. Ni ellir defnyddio procsi 7 mewn cyfuniad â phrocsi 5 neu 6. Nid yw procsi 5 ar gael. Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gweithredu cynllun sy'n bodloni'r meini prawf hyn. Mae procsi 7 wedi'i gynnwys er gwybodaeth.

**RHAN 3 – Tystiolaeth a Chymhwysedd**

Isod mae modd nodi tystiolaeth ategol ar gyfer ceisiadau drwy Lwybr 1 neu 3. Oherwydd y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â Llwybr 2 a Llwybr 4, bydd y rhain yn cael eu trin fesul achos.

Gweler ein Rhestr Wirio ar gyfer Tystiolaeth i gefnogi eich cais. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr, ac efallai y gofynnir am ragor o wybodaeth.

| **Manylion incwm - Llwybr 1**<br>Gofynnir i chi gyflwyno dadansoddiad o'r ffynonellau incwm ar gyfer pob aelod o'r aelwyd sydd dros 18 oed. Dylid cyflwyno ffigwr ar sail cyfanswm blynyddol gros ac mae modd defnyddio taflen arall os bydd angen. Defnyddiwch un llinell ar gyfer pob ffrwd incwm. | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| **CYFANSWM BLYNYDDOL** | £ |

| **Manylion Atgyfeiriad GIG - Llwybr 3**<br>Nodwch pa gyflwr perthnasol, a gadarnhawyd gan Feddyg Teulu / gweithiwr proffesiynol GIG, sy'n berthnasol. | |
|---|---|
| Cyflwr cardiofasgwlaidd | |
| Clefyd anadlol | |
| Symudedd cyfyngedig | |
| Gwrthimiwnedd | |

| **Mesurau**<br>Nodwch pa fesurau y bwriedir eu gosod | Is-gontractwr ar gyfer gosod (nodwch "dim" os nad yw'n berthnasol): |
|---|---|
| Ynni'r haul | |
| ASHP | |
| Insiwleiddio, nodwch pa fath: ………………………………………………………………………………………………………… | |
| Arall, nodwch fanylion:…………………………………………………………………………………………………………………… | |

| **Cynllun**<br>Nodwch pa gynllun yr ydych yn gwneud cais amdano (er budd prosesu data CBSC yn unig) | |
|---|---|
| Cynllun Insiwleiddio Prydain (GBIS) | |
| Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO4) | |

**RHAN 4 - Datganiad**

Rwy'n cydsynio y gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ddefnyddio'r wybodaeth a nodwyd ar y ffurflen hon i asesu fy nghymhwysedd ar gyfer Datganiad Cymhwysedd Hyblyg ECO4 ac rwyf wedi darllen datganiad preifatrwydd CBSC. Rwy'n deall nad yw'r ddogfen hon yn ddatganiad, ac na fydd yn gwarantu fy nghymhwysedd ar gyfer Mesurau Hyblyg ECO4.

Rwy'n deall y bydd argaeledd cyllid a mesurau ECO4 yn destun cydlynydd ôl-osod ac nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cefnogi unrhyw ddarparwr na chontractwr ECO penodol.

Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth yr wyf yn ei chyflwyno am fy amgylchiadau ariannol a phersonol yn wir ac yn gywir. Rwy'n deall y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy angen gwybodaeth bellach i gadarnhau hyn.

Rwy'n rhoi caniatâd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy rannu fy manylion cyswllt a'm manylion personol gyda thrydydd parti i asesu a oes cyfraniad ar gael.

Rwy'n cadarnhau nad oes unrhyw fesurau eisoes wedi'u gosod ac y bydd gwaith yn cael ei gyflawni ar ôl asesu/cadarnhau fy nghymhwysedd yn unig.

**Os ydych chi'n gwneud datganiad anwir yn fwriadol, gallwch gael eich erlyn. Drwy lofnodi isod, rydych yn cydsynio â'r datganiadau uchod.**

| | |
|---|---|
| Llofnod y Deiliad Tŷ | |
| Dyddiad | |

**Hysbysiad Preifatrwydd**

**Gosodwr** - Rhowch hysbysiad preifatrwydd eich cwmni yma a sicrhewch eich bod yn rhoi gwybod i'r ymgeiswyr bod y wybodaeth a gesglir ar y ffurflen gais hon yn cael ei rhannu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Rhowch gopi o hysbysiad preifatrwydd CBSC i ddeiliad y tŷ gyda'r cais hefyd.

**Ymgeisydd** - Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cynllun, y gwaith arfaethedig, cymhwysedd neu wybodaeth berthnasol, cysylltwch â'ch gosodwr neu gontractwr. Anfonwch y ffurflen hon at eich gosodwr. Peidiwch â chyflwyno'r ffurflen yn uniongyrchol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.